**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion y cyfarfod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 18 Mehefin 2012 yn Siambr Cyngor Ynys Môn, Llangefni. Dechreuodd y cyfarfod am 11.30 y bore.

**YN BRESENNOL**

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| A Morris Jones (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C L Guy-Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| W I Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E A Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| L A W Jones | Cyngor Gwynedd |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D A MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P H Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod; K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau) ac S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt yr Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

3 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2012 i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

4 MATERION YN CODI

4.1 10.7 – Iawndal yn ôl Disgresiwn am Derfynu Cyflogaeth yn Gynnar – esboniodd y PSTC Simmons fod ymchwil wedi ei wneud i'r gyfraith ym maes iawndal yn ôl disgresiwn am derfynu cyflogaeth yn gynnar. Derbyniwyd cyngor cyfreithiol, ac mae'r swyddogion wrthi'n ei ystyried a'i ddadansoddi'n ofalus fel bod yr Awdurdod yn gwneud penderfyniad cyfreithlon ac yn gweithredu'n briodol.

4.2.1 12.4 – Sefydlu Pwyllgor Materion Cenedlaethol Awdurdodau Tân ac Achub Cymru – esboniodd y Prif Swyddog Tân beth oedd cefndir sefydlu'r Pwyllgor i geisio gwneud cydweithredu yn opsiwn ffurfiol, a'i fod yn cael ei gyflwyno yn y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor yn comisiynu darnau o waith ledled Cymru, ac yn goruchwylio'r gwaith o'u cyflenwi ar ôl cytuno arnynt. Mae'r gwaith datblygu wedi ei wneud, a chynhelir y cyfarfod cyntaf ar 17 Gorffennaf. Bydd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ar y pwyllgor, ynghyd â'r Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân.

4.2.2 Holodd y Cyng. A Jones a oedd y cyrff cynrychioliadol ar y pwyllgor. Esboniodd y Prif Swyddog Tân eu bod wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori cyn sefydlu'r pwyllgor ond nad oeddent ar y pwyllgor ei hun.

5 DANGOSYDDION PERFFORMIAD AMCANOL ANARCHWILIEDIG 2011-12

5.1 Rhoddodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol wybod i'r Aelodau am ganlyniadau'r Dangosyddion Perfformiad Strategol anarchwiliedig am y flwyddyn 2011-12. Caiff y ffigyrau terfynol eu darparu i'r Awdurdod unwaith y byddant wedi cael eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru.

5.2 Roedd Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011 yn nodi tri Dangosydd Perfformiad Strategol statudol y bydd perfformiad awdurdodau tân ac achub yn cael ei fesur yn eu herbyn o 2011-12 ymlaen.

5.3 Esboniodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol fod y canlyniadau amcanol yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Strategol a gyfrifiwyd yn 2011-12 yn dangos gwelliant o'u cymharu â chanlyniadau 2010-11.

5.4 Roedd nifer y tanau wedi gostwng o 3,297 i 3,165, ac roedd nifer y prif danau (h.y. y rhai mwyaf difrifol) wedi gostwng o 1,346 i 1,299. Dywedodd y Prif Swyddog Tân mai da oedd nodi bod nifer y marwolaethau oherwydd tanau wedi gostwng dros y blynyddoedd, ond pwysleisiodd na ddylid bod yn hunanfodlon. Roedd yn hollbwysig parhau â'r gwaith i ostwng y nifer fwyfwy a gweithio mewn partneriaeth â gwahanol asiantaethau er mwyn sicrhau bod y rhai 'anodd eu cyrraedd' yn y gymdeithas yn clywed y negeseuon diogelwch tân ac yn gwrando arnynt.

5.5 Canmolwyd yr Awdurdod a'r Gwasanaeth gan y Cyng. P Shotton am y gwaith a wnaed ganddynt ers 2001 yn gwella'r agweddau atal tân ac yn cyflwyno'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ymhob rhan o'r Gogledd gan fod hyn wedi profi'n ychwanegiad rhagorol at ddiogelwch pobl y Gogledd.

5.6 Holodd y Cyng. J Evans a oedd tymor y gwyliau yn effeithio ar nifer y tanau. Cadarnhawyd bod dadansoddiadau blaenorol wedi dangos nad yw ymwelwyr yn cael unrhyw effaith yn gyffredinol, ond efallai eu bod yn gwneud mymryn o wahaniaeth i danau eithin / tanau yn yr awyr agored.

5.7 **PENDERFYNWYD nodi canlyniadau Dangosyddion Perfformiad Strategol anarchwiliedig am 2011-12.**

6 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS AM 2011-2012

6.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad sy'n un o ofynion blynyddol gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod. Mae'r adroddiad yn nodi gweithgarwch y trysorlys a'r gwir Ddangosyddion Darbodus am 2011-2012, a hynny yn unol â gofynion y Cod Materion Ariannol.

6.2 Esboniodd y Trysorydd fod y gwir wariant cyfalaf yn sylweddol is na'r dangosydd gwreiddiol, a hynny oherwydd newidiadau gyda phrosiect gorsaf dân Wrecsam a llithriant arall yn ystod y flwyddyn.

6.3 Roedd yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol perthnasol a oedd yn cyfyngu ar lefelau'r risg sy'n gysylltiedig â'i weithgarwch rheoli'r trysorlys.

6.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gwir Dangosyddion Darbodus am 2011-2012.**

7 PERFFORMIAD ARIANNOL 2011-12

7.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi adolygiad i'r Aelodau o berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2011-12.

7.2 Roedd gan yr Awdurdod strategaeth ariannol tair blynedd er mwyn cyrraedd ei dargedau arbedion, a dyma ail flwyddyn y cynllun erbyn hyn. Yn ystod

2011-12 (blwyddyn 1), roedd y swyddogion wedi gweithredu cynlluniau i gyrraedd y targedau arbedion ar gyfer y dyfodol. Roedd rheolaeth dynn ar y gyllideb wedi golygu y cafwyd rhagor o arbedion ym mlwyddyn 1, a hynny er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod mewn sefyllfa dda i gyrraedd, yn y blynyddoedd nesaf, y targedau arbedion y cytunwyd arnynt. Nodwyd mai'r tanwariant net yn 2011-12 oedd £527,000.

7.3 Tynnodd y Trysorydd sylw'r Aelodau at gronfeydd a darpariaethau'r Awdurdod. Y diffiniad o gronfa wrth gefn yw 'gweithred wirfoddol gan yr Awdurdod i roi adnoddau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol'. Darpariaeth yw 'arian wedi ei neilltuo pan fo gan yr Awdurdod ymrwymiad yn y presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol (cyfreithiol neu ddeongliadol), a'i bod yn debygol y bydd setliad yn cael ei wneud rywbryd yn y dyfodol'.

7.4 Roedd yr Awdurdod yn dal £641,000 mewn cronfeydd fel yr oedd pethau ar 1 Ebrill 2011, ac oherwydd rheolaeth effeithiol o'r gyllideb, nid oedd wedi gorfod defnyddio cronfeydd i ariannu gwariant yn 2011-12. Nodwyd bod yr Awdurdod wedi gallu dal darpariaethau erioed, ac ar y pryd roedd ganddo ddau ddarpariaeth, sef:

- darpariaeth bensiynau i ymorol am daliadau i'r gronfa bensiynau ar gyfer ymddeoliadau ar sail afiechyd ac i ymorol am gostau unrhyw lwmpsymiau ar sail afiechyd nad ydynt yn dod dan y cynllun pensiwn;
- darpariaeth i ymorol am gost ôl-daliad ar gyfer diffoddwyr tân y system dyletswydd ar gael yn ôl y galw a gaiff ei wneud yn rhediad y gyflogres ym Mehefin 2012. Fodd bynnag, nodwyd na fydd y ddarpariaeth a neilltuwyd yn ddigon efallai, a hynny oherwydd anghydfod cenedlaethol sy'n mynd ymlaen gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi

7.5 Rhoddodd y Trysorydd wybod i'r Aelodau y gallai pwysau posibl yn y dyfodol gynnwys costau uwch o ran cyflogau, tanwydd, cyfraniadau pensiwn i weithwyr, yn ogystal â thoriadau i'r Grant Cynnal Refeniw a gostyngiad i'r arian grant. Roedd hyn yn ychwanegol at y targedau arbedion a amlinellwyd yn yr adroddiad. Felly, ystyrid mai doeth fyddai neilltuo tanwariannau i'r Cronfeydd a'r Darpariaethau er mwyn sicrhau bod gan yr Awdurdod rywfaint o ddiogelwch ariannol ar gyfer y dyfodol.

7.6 Rhoddodd y Trysorydd wybod i'r Aelodau bod yn rhaid i ddatganiad o gyfrifon yr Awdurdod gael ei gymeradwyo cyn diwedd mis Medi. Gan y byddai cyfarfod nesaf yr Awdurdod yn cael ei gynnal ym mis Hydref, gofynnodd y Trysorydd i'r Aelodau ddirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Archwilio i gymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

7.7 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo trosglwyddo'r tanwariant i'r ddarpariaeth ar gyfer ôl-daliad y System Dyletswydd ar gael yn ôl y Galw, y ddarpariaeth bensiynau ar sail afiechyd, cronfa system rheoli'r fflyd, cronfa taliadau diswyddo a'r gronfa ar gyfer prynu'r Pencadlys, ynghyd â chyfraniad o £526,984 i'r gronfa gyffredinol; a**

**(ii) dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo datganiad o gyfrifon 2011-12 yn ei gyfarfod ym mis Medi.**

8 DILEU DYLEDION DRWG YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

8.1 Ar gais yr Awdurdod, bydd y Trysorydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol ac yn rhestru'r holl ddyledion a gafodd eu dileu a'r rheswm dros eu dileu.

8.2 **PENDERFYNWYD nodi na chafodd unrhyw ddyledion drwg eu dileu rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012.**

9 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

9.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a luniwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben, sef 2011-12.

9.2 Cafodd yr Aelodau wybod mai diben y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw rhoi gwybod yn gyhoeddus i ba raddau y mae Awdurdod yn cydymffurfio â'i god ei hun bob blwyddyn. Lluniwyd diwyg Cod Llywodraethu Blynyddol a oedd yn briodol i'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru. Roedd y datganiad yn cynnwys manylion ynglŷn â pha mor effeithiol y bu'r trefniadau llywodraethu yn y flwyddyn honno, ac unrhyw welliannau sydd yn yr arfaeth ar gyfer y cyfnod i ddod.

9.3 Wrth gynnal yr adolygiad hunanasesol am 2011-12, nid oedd y swyddogion yn nodi unrhyw feysydd pryder mawr o ran y trefniadau llywodraethu ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Roedd y Gwasanaeth wedi ymdrin yn briodol â'r pedwar mater allweddol a godwyd yn 2010-11, a thynnwyd sylw at bum mater allweddol ond bychan i ymdrin â hwy yn 2012-13.

9.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol am 2011-12.**

10 DATGANIAD O SICRWYDD YR ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2011/12

10.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad, ac ymddiheuro bod Pennaeth yr Archwilio Mewnol yn methu dod i'r cyfarfod. Mae'r adroddiad yn rhan o ofyniad blynyddol yr Awdurdod i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol.

10.2 Cadarnhawyd bod yr Archwilydd Mewnol yn fodlon fod y ffaith fod gwaith archwilio mewnol wedi ei wneud, ynghyd â bod lefel yr wybodaeth am y sefydliad a'i weithdrefnau yn cael ei chynnal, yn golygu bod modd casglu'n rhesymol bod prosesau'r rheolwyr, y gwaith rheoli a llywodraethu yn ATAGC yn ddigonol ac yn effeithiol. Am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012, roedd gan ATAGC brosesau rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol boddhaol i reoli amcanion yr Awdurdod.

10.3 **PENDERFYNWYD derbyn Datganiad o Sicrwydd Blynyddol Rheolaeth Fewnol a'i ddefnyddio i gyfrannu at y dystiolaeth ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2011/12.**

11 YR ADOLYGIAD O UWCH GYFLOGAU

11.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am y gofyniad i gynnal adolygiad annibynnol o uwch gyflogau yn y gwasanaeth tân ac achub ar gyfer y pum uwch swydd a enwyd.

11.2 Esboniodd y Clerc fod gofyn i'r Aelodau gytuno bod adolygiad o'r uwch gyflogau yn cael ei gynnal, ac y byddai canlyniadau'r adolygiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn un o gyfarfodydd yr Awdurdod yn y dyfodol.

11.3 Roedd y Cyng. J R Skelland yn teimlo y dylid cael pedwerydd diben i'r adolygiad, sef adlewyrchu'r hinsawdd economaidd bresennol. Esboniodd y Clerc y byddai hynny'n cael ei ystyried, ond mai prif ffocws yr adolygiad fyddai cymharu cyflogau gyda chyrff cyhoeddus tebyg a'r meincnod cenedlaethol. Yna, byddai'r Aelodau'n cael cyfle i benderfynu beth oedd yn deg ac yn iawn i'w dalu.

11.4 **PENDERFYNWYD comisiynu adolygiad o'r uwch gyflogau, a nodi y bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Aelodau mewn cyfarfod yn y dyfodol.**

12 YMESTYN Y CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH AR GYFER RÔL Y CLERC

12.1 Aeth y Clerc a'r Dirprwy Glerc allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth hon.

12.2 Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth am yn ôl i ymestyn y cytundeb lefel gwasanaeth presennol ar gyfer darparu clerc, swyddog monitro, cyngor cyfansoddiadol a gwasanaethau eraill i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

12.3 Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y cytundeb lefel gwasanaeth sydd gan yr Awdurdod gyda Chyngor Sir y Fflint am wasanaethau ei Brif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fel clerc a swyddog monitro wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2012. Oherwydd bod Awdurdod Tân ac Achub newydd yn cychwyn, ystyrid mai doeth fyddai adnewyddu'r cytundeb gyda Chyngor Sir y Fflint am gyfnod o flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013. Yn ystod y flwyddyn, bydd adolygiad o'r rôl yn cael ei gynnal cyn gwneud trefniadau ar gyfer 2013 ac wedi hynny.

12.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo am yn ôl y trefniant presennol ar gyfer rôl y Clerc am gyfnod pellach o flwyddyn.**

13 CWYNION A LLYTHYRAU O WERTHFAWROGIAD

13.1 Bob blwyddyn, caiff yr Aelodau wybod am nifer y cwynion a'r gwerthfawrogiadau a ddaw i law. Roedd yr adroddiad cyfredol a gyflwynwyd i'r Awdurdod yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012.

13.2 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Simmons wybod i'r Aelodau bod 22 o gwynion wedi dod i law, o'i gymharu â 40 y flwyddyn cynt. Esboniodd y PSTC Simmons fod pum cwyn yn ymwneud â gyrru wedi dod i law yn ystod y

flwyddyn, ac roedd hyn yn nifer fach iawn o ystyried bod y Gwasanaeth wedi gwneud 14,225 o siwrneiau cerbydau brys. Cadarnhawyd bod ymchwiliad yn cael ei gynnal i bob cwyn, a rhoddir rhagor o hyfforddiant i'r rhai sy'n gyfrifol, a'u hatgoffa am safon y gyrru sy'n angenrheidiol yn y Gwasanaeth.

13.3 Nodwyd bod 97 o lythyrau, cardiau, e-byst a negeseuon Facebook wedi cael eu derbyn yn ystod y flwyddyn yn mynegi gwerthfawrogiad a bodlonrwydd gyda'r Gwasanaeth. Roedd y llythyrau o werthfawrogiad a ddaeth i law yn ymwneud ag amrywiaeth eang o waith y Gwasanaeth Tân ac Achub, gan gynnwys ymweliadau ag ysgolion, cynnal ymweliadau â gorsafoedd, digwyddiadau ar yr ochr weithredol a gweithio mewn partneriaeth.

13.4 **PENDERFYNWYD nodi nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a ddaeth i law.**

14 CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL YR AELODAU

14.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn i'r Aelodau gymeradwyo Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn dilyn cyhoeddi adroddiad blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn Rhagfyr 2011.

14.2 Esboniodd y Trysorydd fod sefydlu panel annibynnol cenedlaethol ar gydnabyddiaeth ariannol yn golygu nad oedd yn rhaid i'r Aelodau mwyach benderfynu ar lefel eu cydnabyddiaeth ariannol a'u lwfansau eu hunain.

14.3 Roedd angen gwneud rhagor o newidiadau i'r cynllun drafft, a byddai'r Trysorydd a'r Clerc yn cydweithio i newid y Cynllun yr oedd yn rhaid ei gyflwyno i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol er mwyn ei gymeradwyo'n derfynol. Nodwyd mai £198 oedd y ffi ddyddiol a oedd yn daladwy i Aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau, a £256 oedd yn daladwy i gadeirydd y Pwyllgor Safonau. Hefyd, byddai'r Trysorydd yn egluro'r ffi a oedd yn daladwy i gadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Awdurdod.

14.4 Holodd y Cyng. J R Skelland a oedd peidio â derbyn y codiadau yn opsiwn gan ei fod yn bryderus na roddwyd ystyriaeth i'r hinsawdd economaidd bresennol wrth benderfynu ar y ffigyrau. Esboniodd y Trysorydd na allai'r Awdurdod gyd-wrthod y newidiadau, ond gallai unigolion rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r Trysorydd a'r Clerc os oeddent yn dymuno cael eu talu llai na'r hyn a gynigid.

14.5 **PENDERFYNWYD nodi'r cynllun drafft a bod y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'w chymeradwyo'n derfynol.**

15 BWRDD RHANBARTHOL CYMUNEDAU DIOGELACH A CHOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

15.1 Rhoddodd y Clerc yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â sefydlu Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Diogelach a phenodi Comisiynydd a Phanelau'r Heddlu a Throseddu.

15.2 Sefydlwyd y Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Diogelach, ac mae'r awdurdodau cyfansoddol wedi cymeradwyo cytundeb partneriaeth. Cynhelir ei gyfarfod cyntaf ym mis Mehefin. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cael eu hethol ar 15 Tachwedd 2012, a bydd yn gyfrifol am weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol mewn ardaloedd lleol i ddatblygu a gwireddu cynlluniau a blaenoriaethau plismona.

15.3 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn aelod o'r Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Diogelach a fydd yn cynghori Comisiynydd yr Heddlu ar eu blaenoriaethau yn y rhanbarth o ran diogelwch cymunedol.

15.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

16 Y CYLCHGRAWN 'ER GWYBODAETH'

16.1 Cafodd cylchgrawn yr Awdurdod ei ddosbarthu yn y cyfarfod. Caiff 'Er Gwybodaeth' ei gyhoeddi bedair gwaith y flwyddyn, ac mae'n rhoi blas i'r Aelodau o waith y Gwasanaeth.

16.2 **PENDERFYNWYD derbyn y rhifyn diweddaraf o'r cylchgrawn 'Er Gwybodaeth'.**